

**Cyfeirnod:** IR878

**Dyddiad cyhoeddi:** 10 Awst 2023

## Archwiliadau awdurdod lleol sy'n weddill

Diolch am eich neges e-bost, dyddiedig 27 Gorffennaf 2023, lle gwnaethoch egluro eich cais am wybodaeth yn eich neges e-bost, dyddiedig 7 Mehefin 2023. Rwy'n ysgrifennu atoch i ddarparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani i'r graddau y mae hynny'n bosibl, h.y. mewn perthynas â'ch cwestiynau 1 i 3, ac i ofyn am eglurhad pellach ynghylch y cwestiynau sy'n weddill. Mae'n ddrwg gennyf am beidio â gofyn am eglurhad ynghylch y cwestiynau hynny pan wnaethom ysgrifennu atoch ym mis Mehefin.

Rwyf wedi nodi'r wybodaeth y gofynnoch amdani, ynghyd â rhywfaint o esboniad, o dan gwestiynau 1 i 3 yr ydych wedi'u hegluro fel a ganlyn:

### **1. Faint o archwiliadau ydych chi'n eu cynnal ar gyfer Awdurdodau Lleol [y 22 prif gyngor] yng Nghymru?**

Dylwn nodi bod ein harchwiliadau o'r 22 prif gyngor yng Nghymru, a chyfrifon cysylltiedig, yn cael eu cynnal ar sail gofynion statudol, yn bennaf Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, yn hytrach nag "ar gyfer" y cynghorau fel y cyfryw. Yn ogystal â'r 22 archwiliad o'r 22 prif gyngor yng Nghymru, mewn perthynas â'r cynghorau hynny rydym hefyd yn cynnal archwiliadau o wyth cronfa bensiwn, 20 cydbwyllgor, pum awdurdod harbwr ac awdurdod iechyd porthladdoedd, a phedwar archwiliad o Gronfa Degwm Cymru.

### **2. Sawl archwiliad a gynhelir ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned?**

Unwaith eto, dylwn nodi bod ein harchwiliadau o gynghorau tref a chymuned yn cael eu cynnal ar sail gofynion statudol--Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004--yn hytrach nag "ar gyfer" y cynghorau fel y cyfryw. Mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2022-23, mae gennym raglen i gynnal 735 o archwiliadau o gynghorau tref a chymuned, a phum archwiliad o gydbwyllgorau cysylltiedig.

### **3. Beth yw'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer cynnal y rhain [archwiliadau cynghorau tref a chymuned]?**

Mae pob cyngor tref, ac eithrio un, yn cyd-fynd â'r diffiniad o "corff perthnasol llai" a ddarperir gan Reoliad 2 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Ar gyfer cyrff perthnasol llai o'r fath, mae'r Rheoliad yn gosod terfyn amser o 30 Medi yn y flwyddyn yn union ar ôl diwedd y flwyddyn y mae'r datganiadau cyfrifyddu yn ymwneud â hi er mwyn i'r corff gyhoeddi tystysgrif, barn neu adroddiad yr archwilydd. Yn unol â hynny, rydym yn gweithio i gwblhau archwiliadau a darparu tystysgrif archwilio, barn ac adroddiad cyn 30 Medi yn union ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol berthnasol. Fodd bynnag, gellir newid yr amserlen hon os: (a) nid yw cyngor yn darparu cyfrifon i'w harchwilio erbyn y terfyn amser o 30 Mehefin a bennwyd gan y Rheoliadau ar gyfer cymeradwyo datganiadau cyfrifyddu'r cyngor, (b) ni ddarperir digon o wybodaeth gan y cyngor i hwyluso'r archwiliad sydd am gael ei gynnal a (c) codir materion yn ystod yr archwiliad y mae angen eu harchwilio'n helaeth, megis pan fo etholwr yn gwrthwynebu eitem yn y cyfrifon. Mewn achosion o'r fath (a, b a c), anelwn at gwblhau'r gwaith cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol o ystyried cydweithrediad y cynghorau dan sylw.

Yn achos y cyngor nad yw'n cyd-fynd â'r diffiniad o "gorff perthnasol llai", mae'r dyddiadau cau fel yr uchod ond gyda 31 Mai yn lle 30 Mehefin a 31 Gorffennaf yn lle 30 Medi yn y drefn honno.

### **Cwestiynau 4 i 6**

O ran y cwestiynau sy'n weddill, mae'n ofid i mi fod angen eglurhad pellach arnom: a yw'r wybodaeth a geiswch yn ymwneud â chynghorau tref a chymuned yn unig, neu a yw'n ymwneud â'r 22 prif gyngor hefyd, neu gyfres arall o archwiliadau. Rwy'n deall y dylai ein cais am eglurhad ar 8 Mehefin 2023 fod wedi ymdrin â'r cwestiynau hynny hefyd, ac ymddiheuraf am beidio â gwneud hwnnw.

Yn gywir,

Pennaeth Cyfraith a Moeseg

Cyfeirnod: IR878

Dyddiad cyhoeddi: 8 Medi 2023

## Archwiliadau awdurdod lleol sy'n weddill

Yn dilyn eich eglurhad ar 10 Awst 2023, rwy'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r tri chwestiwn sy'n weddill yn eich cais am wybodaeth ar 7 Mehefin 2023, sef, fel yr eglurwyd:

*4. Faint (mewn niferoedd a %) o'r archwiliadau hyn [prif gyngor a chynghorau tref a chymuned] sydd heb eu cwblhau o fewn yr amserlen ddisgwyliedig?*

*5. Beth yw'r dyddiad rhagamcanol ar gyfer cwblhau'r holl archwiliadau [prif gyngor a chynghorau tref a chymuned] 2021/22 sy'n cael eu cynnal?*

*6. Beth yw'r rhesymau dros yr oedi [wrth gwblhau archwiliadau'r prif gyngorau a chynghorau tref a chymuned 2021/22]?*

[Mae'r testun mewn bachau petryal yn adlewyrchu'r eglurhad a roddwyd gennych.]

***4. Faint (mewn niferoedd a %) o'r archwiliadau hyn [prif gyngor a chynghorau tref a chymuned] sydd heb eu cwblhau o fewn yr amserlen ddisgwyliedig?***

Ar ddyddiad eich eglurhad (27 Gorffennaf 2023), mewn perthynas â chyfrifon ar gyfer 2021-22:

Prif gynghorau, 2 (allan o 22), 9%

Cynghorau tref a chymuned, 728 (allan o 735), 99%

Fel ar ddyddiad eich eglurhad, nid oedd unrhyw archwiliadau o gyfrifon ar gyfer 2022-23, boed yn brif gynghorau neu'n gynghorau tref neu gymuned, y tu hwnt i'r amserlenni a nodir o dan gwestiwn 3 o ran cwblhau. Felly, y wybodaeth sy'n cyfateb i'ch disgrifiad ar gyfer 2022-23 yw sero, 0%.

***5. Beth yw'r dyddiad rhagamcanol ar gyfer cwblhau'r holl archwiliadau [prif gyngor a chynghorau tref a chymuned] 2021/22 sy'n cael eu cynnal?***

Ar gyfer archwiliadau'r prif gynghorau sy'n weddill ar gyfer 2021-22, rydym yn disgwyl i un gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Medi 2023 ac i'r archwiliad sy'n weddill gael ei gwblhau yn ddiweddarach yn hydref 2023.

Yn achos cynghorau tref a chymuned, nid ydym yn cadw gwybodaeth gofnodedig sy'n bodloni'r disgrifiad hwn. Am y rhesymau a nodir isod o dan gwestiwn 6, nid yw'n bosibl rhoi dyddiad rhagamcanol ar gyfer cwblhau.

### **6. Beth yw'r rhesymau dros yr oedi [wrth gwblhau archwiliadau'r prif gynghorau a chynghorau tref a chymuned 2021/22]?**

O ran y prif gynghorau, y rheswm dros yr oedi yw'r angen i ddatrys materion cyfrifyddu technegol, gan gynnwys cyfrifyddu eiddo, peiriannau ac offer, a phrisiadau asedau.

Ar gyfer cynghorau tref a chymuned, mae'r rhesymau dros yr oedi yn niferus. Fodd bynnag, y rheswm penodol mwyaf cyffredin (yn berthnasol mewn 457 o achosion, 62%) yw na ddarparodd cynghorau ddatganiadau ariannol i'w harchwilio erbyn y terfyn amser statudol (30 Mehefin 2022). Yn ogystal, ni ddarparodd llawer o gynghorau a oedd yn darparu datganiadau ariannol erbyn y terfyn amser gofnodion cyfrifyddu sylfaenol a gwybodaeth sylfaenol angenrheidiol erbyn y terfyn amser. Gan fod staff archwilio wedi'u trefnu i wneud gwaith yn unol â'r amserlen statudol, roedd yr oedi wrth gyflwyno datganiadau ariannol a gwybodaeth ategol i'w harchwilio yn golygu bod yn rhaid i staff gael eu rhoi ar waith arall ac felly nid oeddent ar gael yn syth wedyn i gynnal archwiliadau o gyflwyniadau hwyr. At hynny, bu'n rhaid defnyddio adnoddau staff prin i ofyn i gynghorau cyflwyno'r wybodaeth ofynnol a'u hatgoffa i wneud hynny.

Mae achosion penodol ychwanegol yr oedi yn cynnwys oedi neu absenoldeb ymatebion cynghorau i gwestiynau ac ymholiadau archwilio, gwaith ychwanegol sydd ei angen i fynd i'r afael â phryderon a godwyd gan etholwyr ac aelodau eraill o'r cyhoedd mewn perthynas â chynghorau penodol, ac mewn achosion unigol yr angen i ganiatáu i ymchwiliadau'r heddlu ddod i ben.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol i mi egluro hefyd, o ystyried bod cyfanswm gwariant blynyddol cynghorau tref a chymuned yn llai na £0.06 biliwn, er bod cyfanswm gwariant blynyddol prif gynghorau tua £8.5 biliwn, ein bod wedi rhoi blaenoriaeth i archwilio prif gynghorau.

Yn gywir,

Pennaeth Cyfraith a Moeseg